estyn.llyw.cymru
estyn.gov.wales

# Ansawdd addysg a hyfforddiant ar gyfer pobl ifanc sy'n gysylltiedig â thimau troseddau ieuenctid

Medi 2018



**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion pob oed
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Llywodraeth Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
| --- | --- |


| | |
| --- | --- |
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Cefndir** | **1** |
| **Prif ganfyddiadau** | **3** |
| **Argymhellion** | **5** |
| **Ymgysylltu â phobl ifanc a'u cefnogi** | **6** |
| Ymgysylltu â phobl ifanc o oed ysgol statudol | 7 |
| Ymgysylltu â phobl ifanc hŷn nag oed ysgol statudol | 9 |
| Datblygu medrau meddal pobl ifanc | 11 |
| Datblygu medrau llythrennedd a rhifedd pobl ifanc | 13 |
| **Cynllunio strategol** | **14** |
| Gwella cyfleoedd dilyniant | 14 |
| Gwella ansawdd | 15 |
| Byrddau rheoli | 15 |
| **Atodiad 1: Sail y dystiolaeth** | **16** |
| **Geirfa** | **17** |
| **Cyfeiriadau** | **18** |

## Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn ymateb i gais yn llythyr cylch gwaith blynyddol Ysgrifennydd y Cabinet i Estyn ar gyfer 2017-2018. Mae'n adrodd ar ansawdd y ddarpariaeth addysg a hyfforddiant sydd ar gael i bobl ifanc sy'n gysylltiedig â thimau troseddau ieuenctid (TTI) yng Nghymru. Mae'r adroddiad hefyd yn arfarnu pa mor effeithiol y mae TTIau yn cynllunio'r ddarpariaeth addysg a hyfforddiant i bobl ifanc ar lefel strategol a gweithredol. Mae'n edrych yn benodol ar ba mor dda y mae gwaith y TTI yn cefnogi dilyniant pobl ifanc. Y gynulleidfa fwriadedig ar gyfer yr adroddiad hwn yw Llywodraeth Cymru, Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (BCI) Cymru, staff mewn TTIau a swyddogion eraill mewn awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. I gael manylion sail dystiolaeth yr adroddiad hwn, gweler Atodiad 1.

## Cefndir

Roedd Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 (Prydain Fawr, 1998) yn mynnu bod y Prif Weithredwr ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru a Lloegr yn sefydlu tîm troseddau ieuenctid (TTI) amlddisgyblaethol. Mae TTIau yn gweithio gyda phobl ifanc sy'n mynd i helynt gyda'r gyfraith ac yn cael eu hatgyfeirio atynt gan y llysoedd. Maent yn archwilio cefndir unigolyn ifanc ac yn ceisio ei helpu i gadw'n glir rhag troseddu. Un rôl bwysig y TTI yw eiriol a broceru mynediad at addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, yn strategol ac ar ran bobl ifanc unigol. Ceir 15 o dimau troseddau ieuenctid yng Nghymru, ac weithiau fe'u gelwir yn wasanaethau troseddau ieuenctid neu wasanaethau cyfiawnder ieuenctid.

Y partneriaid statudol yn y TTI yw'r:

- gwasanaethau cymdeithasol
- gwasanaethau addysg awdurdod lleol
- gwasanaeth yr heddlu
- y gwasanaeth prawf
- y gwasanaeth iechyd

Gan awdurdodau lleol, ynghyd â'r partneriaid statudol hyn, y mae'r ddyletswydd i oruchwylio a chydlynu'r ddarpariaeth gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid. Mae'n ofynnol iddynt ffurfio bwrdd rheoli TTI i ddarparu cyfeiriad i'r TTI ac i ddwyn partneriaid i gyfrif am gyflwyno yn unol â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol a mesurau perfformiad. Gellir recriwtio partneriaid anstatudol ychwanegol i'r bwrdd rheoli ar sail anghenion a blaenoriaethau lleol.

Caiff gwaith TTIau ledled Cymru a Lloegr ei oruchwylio gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (BCI). Yng Nghymru, mae'r BCI yn gweithio'n agos â Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y system cyfiawnder ieuenctid yn gweithio'n effeithiol a bod polisïau datganoledig ac annatganoledig yn cefnogi atal troseddu ac aildroseddu gan blant a

phobl ifanc yng Nghymru.  Arweinir y gwaith yng Nghymru gan strategaeth cyfiawnder ieuenctid ar y cyd Llywodraeth Cymru a’r BCI, sef ‘Plant a phobl ifanc yn gyntaf’ (Llywodraeth Cymru a’r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, 2014).

Ers cyflwyno timau troseddau ieuenctid ym 1998, bu gostyngiadau sylweddol a chynaledig yn nifer y bobl ifanc sy’n mynd i mewn i’r system cyfiawnder ieuenctid. Mae adroddiad blynyddol y BCI (Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, 2017, tud 11-12) yn dangos gostyngiad parhaus yn nifer y bobl ifanc sy’n mynd i mewn i’r system cyfiawnder.  Ar yr un pryd, mae niferoedd y bobl ifanc sy’n cael eu remandio neu’u dedfrydu i’r ddalfa wedi gostwng i lefelau is o lawer na chyn cyflwyno Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 (Prydain Fawr, 1998).  Ers hynny, mae’r llywodraeth wedi ehangu cylch gwaith llawer o TTIau i gynnwys ymestyn gweithgareddau atal a dargyfeirio. Mae hyn yn golygu bod llawer o TTIau yn gweithio gyda phobl ifanc y mae perygl iddynt droseddu er mwyn ceisio’u cefnogi a’u hatal rhag cyflawni trosedd.

# Prif ganfyddiadau

1 Erbyn hyn, mae’r rhan fwyaf o dimau troseddau ieuenctid yn gweithio gyda llai o bobl ifanc sydd wedi’u hatgyfeirio atynt gan y llysoedd, er bod y bobl ifanc hyn yn dal i gynrychioli hanner yr achosion TTI ledled Cymru. Y bobl ifanc eraill y mae TTIau yn gweithio gyda nhw yw’r rheini sydd mewn perygl o droseddu. Mae anghenion cymhleth gan y rhan fwyaf o’r bobl ifanc hynny, fel anawsterau lleferydd ac iaith, materion iechyd meddwl a chysylltiad â’r gwasanaethau cymdeithasol oherwydd ffactorau yn eu teuluoedd.

2 I bobl ifanc o oed ysgol, mae gan y rhan fwyaf o dimau troseddau ieuenctid drefniadau da ag awdurdodau lleol ac ysgolion i gael gwybodaeth asesu addysg. Yn gyffredinol, mae’r TTI yn cynorthwyo staff ysgolion yn dda er mwyn helpu lleihau tarfu ar addysg pobl ifanc gymaint ag y bo modd. Mewn ychydig o ardaloedd, fodd bynnag, nid yw ysgolion yn hysbysu’r TTI yn ddigon cyflym pan fyddant yn gwahardd pobl ifanc o addysg.

3 Mae pobl ifanc o oed ysgol sy’n gysylltiedig â’r TTI yn gwella eu hymgysylltiad ag addysg, er nad ydynt yn treulio digon o amser mewn addysg neu hyfforddiant yn gyffredinol.

4 Mae gormod o bobl ifanc hŷn nag oed ysgol sy’n gysylltiedig â TTIau heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae TTIau yn wynebu ystod o heriau o ran dod o hyd i gyfleoedd addas ar gyfer y bobl ifanc hyn, ac nid ydynt yn cynllunio’n strategol i wella ystod y cyfleoedd sydd ar gael.

5 Nod bron pob un o’r TTIau yw datblygu medrau meddal pobl ifanc, fel hyder, medrau cymdeithasol a hunanbarch, lle mae angen i lawer o ddysgwyr wneud cynnydd. Fodd bynnag, nid oes dulliau clir gan TTIau i olrhain y cynnydd y mae pobl ifanc yn ei wneud wrth ddatblygu’r medrau hyn.

6 Mae gweithiwr penodedig gan y rhan fwyaf o TTIau i sicrhau cyfleoedd addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant i’w bobl ifanc. Nid yw ychydig iawn o wasanaethau yn cyflogi cydlynwyr addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, ac yn yr achosion hyn, nid yw’r cysylltiadau effeithiol gan staff bob amser â’r ‘darparwyr cyfleoedd’[1] lleol sydd eu hangen er mwyn galluogi pobl ifanc i wneud cynnydd.

7 Ymgysylltiad mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yw un o’r ffactorau pwysicaf wrth leihau aildroseddu. Fodd bynnag, nid yw gwasanaethau TTI, fel rheol, yn cofnodi, monitro nac yn adrodd i’w byrddau rheoli beth yw’r cyfnod amser a gymer i’w pobl ifanc gael mynediad i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, yn enwedig os nad yw’r bobl ifanc mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

8 Mae llythrennedd a rhifedd yn alluogwyr allweddol i bobl ifanc symud ymlaen at, ac o fewn, addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Ledled Cymru, fodd bynnag, nid oes strategaeth gyson nac effeithiol gan TTIau i sicrhau cymorth priodol i bobl ifanc y mae angen datblygu’u medrau llythrennedd a rhifedd ymhellach.

[1] Gweler yr eirfa

9 Ceir enghreifftiau da o TTIau yn gweithio gyda darparwyr cyfleoedd unigol i sicrhau darpariaeth ar gyfer pobl ifanc. Fodd bynnag, nid yw byrddau rheoli TTI yn ymgysylltu'n strategol â darparwyr allweddol fel addysg bellach a dysgu yn y gwaith, er mwyn deall ystod y cyfleoedd sydd ar gael ar draws yr ardal leol, a dylanwadu arnynt. Nid oes darparwyr addysg bellach a dysgu yn y gwaith gan unrhyw fyrddau rheoli fel aelodau.

10 Mae TTIau yn cael barnau yn dda gan bobl ifanc a'u rhieni neu ofalwyr, er mwyn helpu gwella cymorth pwrpasol ac arfarnu cynnydd.

11 Mae TTIau yn rheoli ansawdd yn bennaf trwy drafodaethau gyda phobl ifanc, eu rhieni neu ofalwyr a gweithwyr achos ynglŷn â pha mor effeithiol y mae pobl ifanc yn gwneud cynnydd. Fodd bynnag, nid oes dulliau cyson i alluogi rheolwyr i arfarnu effaith eu gwaith ar y cynnydd a wna pobl ifanc.

12 Yn gyffredinol, nid yw trefniadau gwella ansawdd a chynllunio strategol wedi'u datblygu'n ddigonol.

13 Nid yw byrddau rheoli TTI yn dwyn partneriaid i gyfrif yn ddigon da am ansawdd eu gwaith, nac am gynllunio'n strategol i wella'r cyfleoedd sydd ar gael i atal pobl ifanc rhag troseddu neu aildroseddu. Maent yn rhoi ffocws rhy gul ar adrodd yn erbyn dangosyddion perfformiad cenedlaethol.

# Argymhellion

**Dylai awdurdodau lleol a thimau troseddau ieuenctid:**

A1 Asesu’r cynnydd y mae pobl ifanc yn ei wneud wrth ddatblygu medrau meddal, fel hyder, medrau cymdeithasol, a hunanbarch, ac wrth wella eu medrau llythrennedd a rhifedd

A2 Sicrhau bod cydlynydd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth (addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant) penodedig gan yr holl wasanaethau

A3 Sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu hawl i addysg mewn modd amserol, ac adrodd i fyrddau rheoli ynglŷn â’r cyfnod amser y mae pobl ifanc yn ei dreulio heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)

A4 Datblygu strategaethau effeithiol sy’n cynorthwyo pobl ifanc i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd


A5 Arfarnu ansawdd, effeithiolrwydd ac effaith eu gwasanaeth yn well er mwyn gwella ansawdd, a llywio cynllunio strategol er mwyn gwella cyfleoedd addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ar gyfer pobl ifanc

A6 Ehangu ystod aelodau anstatudol y bwrdd rheoli i gynnwys darparwyr addysg a hyfforddiant lleol allweddol

## Ymgysylltu â phobl ifanc a’u cefnogi

14 Nid yw pobl ifanc sy’n gysylltiedig â thimau troseddau ieuenctid yn treulio digon o amser mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Mae nifer gyfartalog yr oriau y mae pobl ifanc o oed ysgol a hŷn nag oed ysgol nad ydynt yn gysylltiedig â’r TTI yn ei threulio mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth wedi gostwng yn gyffredinol rhwng 2013-2014 a 2016-2017 (Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, 2018a). Dangosir hyn yn y siart canlynol a ddarparwyd gan BCI Cymru.

**Ffigur 1: Cymru – perfformiad Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth**




15 Dylid edrych ar y duedd hon yng nghyd-destun gostyngiad parhaus yn niferoedd y rhai sy’n dod i gysylltiad am y tro cyntaf â’r system gyfiawnder yng Nghymru. Ar hyd a lled Cymru a Lloegr, mae’r nifer sy’n mynd i mewn i’r system am y tro cyntaf wedi gostwng 85% rhwng 2007 a 2017, ac 11% yn 2016-2017 (Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a’r Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2018b).

16 Nid yw’r gostyngiad yn y nifer sy’n mynd i mewn i’r system am y tro cyntaf yn gyson ar draws pob ardal. Er enghraifft, mae data a ddarparwyd gan BCI Cymru yn dangos bod Gwasanaeth Troseddu Ieuenctid Blaenau Gwent Caerffili wedi adrodd cynnydd o 27 o bobl ifanc, 15 yng Nghwm Taf, chwech ym Mae’r Gorllewin, tri ym Mhowys a thri ym Mro Morgannwg ers y flwyddyn flaenorol. Ychwanegir at yr ystadegau hyn gan y ffaith y gallai un unigolyn gynrychioli nifer o atgyfeiriadau, os yw wedi cyflawni mwy nag un trosedd. Nid yw’r data felly’n dynodi’n glir beth yw graddfa’r ymddygiad troseddol o fewn ardal awdurdod lleol.

17 Mae’r gostyngiad mewn pobl ifanc ar ymyriadau statudol yn golygu bod TTIau, yn aml, yn adrodd ar niferoedd llai cyfatebol o bobl ifanc. Yn fwyaf aml, pobl ifanc â’r cefndiroedd mwyaf heriol a chymhleth sy’n anodd eu lleoli a’u cynnal mewn darpariaeth addas yw’r rhain. Yn ogystal, gall un neu ddau o bobl ifanc yn ymddieithrio rhag darpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ar ddiwedd eu gorchmynion gael effaith ddramatig ar ganrannau yr adroddir amdanynt, yn sgil y niferoedd llai o bobl ifanc y maent yn cyfeirio atynt. I’r perwyl hwn, mae’r tueddiadau

yn y dangosyddion perfformiad ar gyfer pob TTI lleol ond yn ddefnyddiol pan gânt eu hategu gan ragor o wybodaeth am y bobl ifanc gysylltiedig.

18 Yn 2016-2017, roedd pobl ifanc o oed ysgol yn ymgysylltu ag ychydig o dan 15 awr o addysg o gymharu â'r 25 awr argymelledig. Roedd pobl ifanc hŷn nag oed ysgol yn ymgysylltu ag ychydig o dan 12 awr o gymharu â'r 16 awr argymelledig. Mae TTIau yn llwyddo i gynyddu ymgysylltiad pobl ifanc mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant fymryn drwy'r cymorth a ddarparant. Ar gyfartaledd, mae pobl ifanc o oed ysgol yn ymgysylltu am awr neu fwy mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ar ddiwedd eu hymglymiad â thîm troseddau ieuenctid, o gymharu â nifer yr oriau mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ar ddechrau eu hymglymiad. Yn yr un modd, mae ymgysylltiad pobl ifanc hŷn nag oed ysgol yn cynyddu 2.4 awr ar gyfartaledd (Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, 2018a).

### Ymgysylltu â phobl ifanc o oed ysgol statudol

19 Rhwng 2013-2014 a 2016-2017, mae cyfradd droseddu pobl ifanc wedi gostwng ac mae'r gyfradd aildroseddu wedi gostwng hefyd (Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, 2017). Mae'r rhan fwyaf o dimau troseddau ieuenctid yn ymgysylltu ag ystod fwy o bobl ifanc erbyn hyn, yn ymgysylltu â llawer o bobl ifanc yn gynharach, gyda'r bwriad o'u hatal rhag aildroseddu. Mae anghenion cymhleth gan y bobl ifanc y mae'r rhan fwyaf o wasanaethau yn gweithio gyda nhw nawr, ac mae angen iddyn nhw oresgyn ystod eang o rwystrau os ydynt am wneud cynnydd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Er enghraifft, mae Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac Ymyrraeth Gynnar Bae'r Gorllewin yn gweithio gyda llawer o bobl ifanc sydd ag anawsterau mewn lleferydd, iaith a chyfathrebu. Mae Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Casnewydd yn gweithio gyda llawer o bobl ifanc ag iechyd meddwl gwael a ffyrdd anhrefnus o fyw y mae angen cymorth arnynt i fynd i'r afael â nhw cyn y gallant gael mynediad i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau yn gweithio gyda llawer o bobl ifanc sy'n arddangos ymddygiad heriol ac nad yw'r gwydnwch ganddynt i ymdopi â'r heriau a wynebant neu'u goresgyn.

20 Mae cyfran y bobl ifanc sy'n ymgysylltu â'r TTI sydd yn mynychu ysgolion prif ffrwd yn amrywio gryn dipyn ledled Cymru, yn ôl y data a ddarparwyd i Estyn gan TTIau. Yn Sir Gaerfyrddin, er enghraifft, adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae 37 o'r 48 o bobl ifanc yr oedd y gwasanaethau'n ymgysylltu â nhw yn mynychu ysgol brif ffrwd. Yng Nghasnewydd, fodd bynnag, dim ond pump o'u 15 o bobl ifanc sy'n mynychu ysgol brif ffrwd. Mae llawer o'r dysgwyr eraill yn mynychu unedau cyfeirio disgyblion neu ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol. Ym mhob achos bron, erbyn diwedd eu hymglymiad statudol â'r TTI, mae'r cyfnod amser y mae pobl ifanc yn mynychu ysgol neu ddarpariaeth addysg a hyfforddiant arall wedi gwella. Er hyn, mae'r holl TTI yn adrodd bod ymglymiad cyfartalog eu pobl ifanc yn disgyn islaw'r 25 awr argymelledig y mae'r BCI yn ei ddisgwyl.

21 Mae pobl ifanc sy'n derbyn addysg yn y cartref yn cael ychydig iawn o addysg yn ymarferol yn aml. Mewn llawer o TTIau, mae maint yr amser a gynigir i bobl ifanc mewn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol yn isel hefyd, ac nid yw'n bodloni nifer oriau argymelledig y BCI. Canfu adroddiad diweddar Estyn ar addysg heblaw yn yr ysgol (Estyn, 2016) nad yw darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol yn rhoi'r un mynediad i bobl ifanc at eu hawliau addysg â'u cyfoedion. Mae gormod o

awdurdodau lleol yn cymryd gormod o amser i ganfod darpariaeth addas i bobl ifanc sy'n gweithio gyda'r TTI sydd wedi'u gwahardd o ysgol brif ffrwd. Mae lleiafrif o bobl ifanc yn gorfod disgwyl mwy na 15 diwrnod i gael darpariaeth, yn derbyn cwricwlwm cyfyngedig, neu'n dilyn cyrsiau nad ydynt yn ddigon heriol.

22 Ar gyfer pobl ifanc o oed ysgol, mae gan y rhan fwyaf o TTIau drefniadau da ag awdurdodau lleol ac ysgolion i dderbyn gwybodaeth asesu addysg ar y bobl ifanc a atgyfeirir atynt. Mae cydlynydd addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant gan bron pob un ohonynt, ac ym mhob ardal bron, mae staff TTI yn gweithio'n agos ag ysgolion ac awdurdodau lleol i goladu'r wybodaeth asesu hon. Cânt wybodaeth ddefnyddiol o systemau gwybodaeth reoli ysgolion am ddatganiadau o anghenion addysgol pobl ifanc, ac am eu perfformiad addysgol. Mae'r trefniadau hyn yn cynorthwyo'r TTI i gynllunio cymorth priodol ac yn helpu nodi sut orau y gall gweithwyr achos eiriol ar ran pobl ifanc.

23 Mae staff TTI yn gweithio'n effeithiol gydag ysgolion hefyd i gynorthwyo staff ysgolion i ddelio ag ymddygiad pobl ifanc a lleihau unrhyw darfu ar addysg pobl ifanc gymaint ag y bo modd. Mewn un ardal, er enghraifft, gweithiodd cydlynydd addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant gydag ysgol i drafod ymddygiad anodd unigolyn ifanc. Awgrymodd y gweithiwr addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ffyrdd i'r ysgol allu ymgysylltu â'r unigolyn ifanc, a chytunwyd ar gynllun gweithredu er mwyn osgoi gwahardd yr unigolyn ifanc.

24 Mewn nifer o TTIau, mae medrau a phrofiad y cydlynwyr addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn eu cynorthwyo'n dda i ddatblygu cysylltiadau ag ysgolion a chefnogi ysgolion. Er enghraifft, mae gan gydlynwyr addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant Sir y Fflint brofiad blaenorol defnyddiol o weithio i wasanaeth lles addysg awdurdod lleol. Mae ychydig o gydlynwyr, fel yng Nghonwy a Sir Ddinbych, yn athrawon cymwys. Mae hyn yn rhoi dealltwriaeth dda iddynt o ddarpariaeth addysg a sut i gael gafael ar wybodaeth asesu addysgol, er mwyn rhoi gwybodaeth i weithwyr achos sy'n gweithio gyda'r bobl ifanc.

25 Mewn llawer o ardaloedd, mae anghenion cymhleth lluosog gan bobl ifanc sy'n cael eu hatgyfeirio i'r TTI. Yn aml, mae'r rhain yn cynnwys anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, materion ymddygiadol, anghenion dysgu ychwanegol, profiad o drawma, neu ddiffyg cymorth priodol yn y cartref i ymgysylltu â darpariaeth addysgol. Mae'r anghenion hyn yn aml yn rhwystro gallu'r unigolyn ifanc i aros mewn ysgol brif ffrwd. Mae diffyg darpariaeth addysg, sy'n gallu darparu ar gyfer yr anghenion cymhleth hyn, yn arwain at anawsterau, ac oedi felly, o ran lleoli pobl ifanc mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Mae'r oedi hyn yn gwneud ei gwneud hi'n anoddach ailymgysylltu â nhw.

26 Mae lleiafrif o ardaloedd, fel Bro Morgannwg, yn cysylltu â gweithwyr proffesiynol allweddol ar draws yr awdurdod lleol trwy gyfarfodydd rheolaidd i wella cydlyniant darpariaeth pobl ifanc. Mae hyn yn gwella'r tebygolrwydd y bydd pobl ifanc yn derbyn lleoliad addysg sy'n ystyried eu hanghenion yn effeithiol. Yng Nghasnewydd, mae gweithiwr addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant y TTI yn aelod o 'banel symudiadau a reolir' wythnosol yr awdurdod lleol lle mae ysgolion lleol a rheolwyr awdurdod lleol yn trafod unrhyw unigolyn ifanc y mae eu lleoliad addysg mewn perygl o chwalu, a chytuno ar gynlluniau ar y cyd i gynorthwyo disgyblion unigol. Mae'r

dulliau cydweithredu hyn yn fuddiol, yn arbennig pan fydd yr holl asiantaethau yn gweithio gyda'i gilydd er budd y bobl ifanc y mae angen lleoliadau addysg amgen arnyn nhw. Maent yn lleihau'r perygl y bydd pobl ifanc yn ymddieithrio oddi wrth addysg.

27 Mewn lleiafrif o feysydd, mae ychydig o ysgolion o hyd sy'n methu hysbysu'r TTI ar unwaith pan fyddant yn gwahardd pobl ifanc, naill ai am gyfnod byr neu gyfnod hir. Yn yr achosion hyn, mae gweithwyr achos yn aml yn dod i wybod am waharddiadau trwy drafodaethau gyda phobl ifanc a rhieni/gofalwyr. Mae'r holl TTIau yn ymateb yn brydlon i'r achosion hyn ac yn eu hatgyfeirio at yr awdurdod lleol perthnasol fel y gallant gymryd camau pellach. Yng Ngwasanaethau Troseddau Ieuenctid Cwm Taf, ceir nifer o achosion lle mae ymddygiadau pobl ifanc yn arwain at waharddiadau cyfnod penodol, na chawsant eu hadrodd i'r TTI. Nid yw gweithwyr achos yn gallu cynorthwyo pobl ifanc yn ddigon cyflym felly. Mae hyn yn arwain at fod ychydig o bobl ifanc yn segur ac mae'r perygl y byddant yn mynd yn gysylltiedig â throseddu yn cynyddu.

28 Pan fydd pobl ifanc sy'n ymgysylltu â TTIau yn cael eu gwahardd o'r ysgol, ceir bylchau hir yn aml ym mhresenoldeb yr unigolyn ifanc mewn addysg. Mae hyn yn cynyddu'r perygl y byddant yn ymgysylltu ag ymddygiad aildroseddu. Mae hefyd yn arwain at ostyngiad sylweddol ym maint yr amser y mae'r bobl ifanc hyn yn mynychu addysg yn ystod eu hymglymiad â'r TTIau, gan effeithio'n niweidiol ar eu gallu i ymgysylltu a gwneud cynnydd.

### Ymgysylltu â phobl ifanc hŷn nag oed ysgol statudol

29 Mae gweithiwr penodedig gan y rhan fwyaf o TTIau sy'n gyfrifol am sicrhau cyfleoedd i'r bobl ifanc hynny sy'n hŷn nag oed ysgol statudol. Mae cefndir da mewn cysylltu â darparwyr cyfleoedd, fel cyflogwyr, gan lawer o'r rhain. Mewn ychydig o achosion, fel yng Ngwynedd a Môn, Conwy a Chaerdydd, mae'r cydlynwyr addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant hyn yn gynghorwyr gyrfaoedd ar secondiad. Mae hyn o gymorth gan ei fod yn galluogi'r cydlynwyr hyn i gael mynediad uniongyrchol at ddatblygiad proffesiynol parhaus, gwybodaeth am gyflogwyr, a swyddi gweigion o Gyrfa Cymru. Yng Ngwynedd a Môn, gwna'r TTI ddefnydd da o system arfarnu Gyrfa Cymru i sicrhau ansawdd y ddarpariaeth arweiniad gyrfaoedd ac i fesur unrhyw bellter a deithiwyd wrth gynllunio gyrfaoedd pobl ifanc.

30 Nid yw ychydig o wasanaethau'n cyflogi cydlynwyr addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Yn yr ardaloedd hyn, mae gweithwyr achos yn dod o hyd i gyfleoedd i'w cleientiaid unigol, ar sail eu gwybodaeth am ddarparwyr cyfleoedd lleol. Fodd bynnag, nid yw gweithwyr achos bob amser yn deall gwerth cymwysterau, fel credydau Agored, yn y farchnad lafur a pha opsiynau sydd ar gael i bobl ifanc symud ymlaen i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Yn ogystal, nid oes gan weithwyr achos unigol wybodaeth ddigon eang am y farchnad lafur leol yn aml. O ganlyniad, nid ydynt yn gallu cynorthwyo pobl ifanc i fanteisio ar y cyfleoedd mwyaf priodol iddynt.

31 Mae cyfran y bobl ifanc hŷn nag oed ysgol statudol sy'n gysylltiedig ag addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn amrywio gryn dipyn rhwng ardaloedd awdurdod lleol. Er enghraifft, mae'r data a ddarperir i Estyn gan TTIau yn dangos, yng ngwasanaeth

Blaenau Gwent a Chaerffili, bod 16% o bobl ifanc hŷn nag oed ysgol statudol sy'n gysylltiedig â'r TTI heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET), ond yng Nghasnewydd, mae 55% yn NEET.  Fodd bynnag, gallai'r ystod gymhleth o rwystrau y mae'n rhaid i lawer o bobl ifanc eu goresgyn, wneud mynediad uniongyrchol, cynaliadwy i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn afrealistig. Nid oes llety sefydlog gan lawer ohonynt, gall fod medrau cymdeithasol neu fedrau sylfaenol gwael ganddynt, neu gall fod materion iechyd meddwl ganddynt sydd heb eu datrys.  Tra bod y bobl ifanc hyn allan o addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, mae gweithwyr achos yn gweithio gyda nhw yn unigol i helpu eu paratoi i oresgyn y rhwystrau hyn a datblygu'u medrau meddal.

32 Ceir enghreifftiau da o wasanaethau'n defnyddio gwaith gwirfoddol i alluogi pobl ifanc i gael profiad ac i ddatblygu'u medrau.  Fodd bynnag, tra'u bod ar leoliadau gwirfoddol, caiff pobl ifanc eu hystyried yn NEET o hyd, ac mae'r niferoedd bach o bobl ifanc y mae'r data hwn yn eu cynrychioli yn golygu y gallai'r data gael ei wyrdroi gan ychydig iawn o bobl ifanc a allai gymryd mwy o amser i gael mynediad i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

33 Ceir enghreifftiau da o wasanaethau yn defnyddio gwaith gwirfoddol i alluogi pobl ifanc i gael profiad ac i ddatblygu'u medrau.

34 Mae gan bron yr holl wasanaethau gysylltiadau da â fforymau lleol ar gyfer adolygu pobl ifanc sy'n NEET.  Yng Nghasnewydd, er enghraifft, mae gweithiwr addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant y TTI yn aelod o banel amlasiantaeth sy'n olrhain pobl ifanc sy'n NEET.  Mae'r panel hwn yn effeithiol o ran dod ag asiantaethau allweddol at ei gilydd sy'n darparu cynlluniau dilyniant unigol ar gyfer pobl ifanc y TTIau, a'u cydweddu â chyfleoedd lleol sydd i'w cael.  Mae trefniadau tebyg gan y rhan fwyaf o ardaloedd, ac mae'r fforymau hyn yn helpu staff TTI i gynorthwyo pobl ifanc sy'n barod i fynd i mewn i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

**Astudiaeth achos 1**

Roedd 'Andy' yn unigolyn swil iawn, gyda hunan-barch isel, a gafodd orchymyn llys i wneud iawn am chwe awr am ddifrod troseddol yn ei gyfeiriad cartref.  Roedd Andy yn byw ar ystâd yng ngorllewin cymuned fawr, a oedd yn nodedig am fod yn arbennig o ddifreintiedig.  Yn flaenorol, roedd wedi mynychu a chwarae yn y lle chwarae antur lleol.  Nid oedd Andy erioed wedi gweithio na helpu mewn asiantaeth allanol.  Trefnodd staff TTI y gallai helpuyn y gegin yn y lle chwarae antur lleol yn paratoi a gweini byrbrydau sylfaenol yn ystod ei oriau dynodedig.  Ar ddiwedd ei oriau, ymwelodd gweithiwr TTI ag Andy, a oedd yn ymddangos yn hapus ynghylch gwneud rhywbeth i helpu pobl eraill a oedd yn byw ar yr un ystâd.  Fe wnaeth rheolwr y lle chwarae ei gymeradwyo hefyd am ei ddiwydrwydd a'i waith caled.  Erbyn hyn, mae Andy yn gobeithio y gallai fynychu'r coleg rywbryd yn y dyfodol a mynd ati i ddilyn cwrs arlwyo.

35 Nid yw TTIau, fel rheol, yn cofnodi, monitro nac yn adrodd i’w byrddau rheoli beth yw’r cyfnod amser a gymer i’w pobl ifanc gael mynediad i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, na’r wybodaeth a gasglant am fylchau mewn cyfleoedd. Nid yw’r wybodaeth hon yn cael ei dadansoddi na’i hadrodd i fyrddau rheoli yn systematig mewn modd sy’n eu galluogi i ganolbwyntio ar gynllunio cymorth neu ehangu’r cyfleoedd a fyddai’n gwella mynediad pobl ifanc i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

**Astudiaeth achos 2**

Cafodd ‘Dan’ ei addysgu trwy brosiect i ddarparu rhaglen ymgysylltu a dysgu bwrpasol ar gyfer pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn NEET. Roedd Dan yn byw mewn ardal wledig, ac roedd o deulu difreintiedig â rhieni a oedd wedi cael cymorth yn flaenorol gan dîm Gwasanaethau Cymorth Teulu Integredig. Roedd Dan wedi cael cynnig prentisiaeth gyda saer maen lleol, a oedd yn ei gwneud yn ofynnol iddo fynychu’r coleg. Gadawodd Dan y coleg amser cinio ar y diwrnod cyntaf am nad oedd yn hoffi’r coleg, a chollodd ei brentisiaeth. Ar ôl mynd yn NEET, gwrthododd Dan fynd i’r coleg, ac roedd yn well ganddo geisio dod o hyd i waith iddo’i hun. Trefnodd y TTI gludiant iddo, ac ariannodd Dan i wneud hyfforddiant paratoadol i ennill cerdyn Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu (CSCS). Cwblhaodd gwrs ymwybyddiaeth Iechyd a Diogelwch, a llwyddodd yn y prawf CSCS. Fodd bynnag, ni ddaeth Dan o hyd i waith. Roedd yn hawlio Lwfans Ceisio Gwaith, a phennodd y Ganolfan Byd Gwaith ofyniad arno i ymweld â’i chanolfan mewn tref leol ddwywaith yr wythnos i chwilio am swydd, am nad oedd ganddo fynediad at y rhyngrwyd gartref. Yn aml, roedd hyn yn golygu bod rhaid iddo fodio i gyrraedd y dref.

Trefnodd y gweithiwr TTI i Dan ymweld â’r coleg, a chael ei gyfweld am le mewn cyfle dysgu yn y gwaith. Cysylltodd y gweithiwr TTI â’r saer maen lle’r oedd Dan wedi dechrau gweithio ar brentisiaeth yn flaenorol, a chytunodd i’w gymryd ymlaen trwy lwybr hyfforddiant Ymgysylltu. Aeth y gweithiwr TTI â Dan am gyfweliad pellach yn y coleg, a threfnodd gymorth i’r coleg ddarparu arian bws i Dan tra’i fod yn gwneud yr hyfforddiant. O ganlyniad i’r cymorth a ddarparwyd gan y TTI, cwblhaodd Dan ei orchymyn llys gyda CV a cherdyn CSCS, tystysgrif geni (y talwyd amdano gan y TTI), cais am drwydded beic modur, lle yn y coleg a chynnig o gyflogaeth. Parhaodd y gweithiwr TTI i fonitro cynnydd Dan.

## Datblygu medrau meddal pobl ifanc

36 Ym mron pob TTI, nod llawer o’r gwaith gyda phobl ifanc yw datblygu medrau meddal. Mae’r rhain yn cynnwys medrau cymdeithasol, hyder, hunanbarch, cyfathrebu a gwydnwch. Mae’r rhan fwyaf o TTIau yn blaenoriaethu’r rhain fel ffactorau pwysig y mae angen mynd i’r afael â nhw er mwyn gwella gallu pobl ifanc i

ymgysylltu ag addysg, diwygio'u hymddygiadau a gwneud cynnydd. Yn aml, gwneir y gwaith datblygu hwn yn ystod gweithgareddau anffurfiol, fel teithiau diwrnod gyda chwmni pan fydd y gweithiwr achos yn cynnwys pobl ifanc mewn trafodaeth fyfyriol er mwyn archwilio'u teimladau, emosiynau a'u dysgu. Mae gweithwyr achos yn cofnodi'r gweithgareddau hyn, a'r cynnydd a wna pobl ifanc, mewn ffeiliau achos. Fodd bynnag, nid yw'r gwaith cofnodi hwn mewn fformat sy'n cefnogi dadansoddi ac adrodd yn ehangach.

37 Mae'r rhan fwyaf o TTIau yn gweithio'n dda i gynnwys pobl ifanc mewn 'arfer adferol', sy'n eu helpu i ddatblygu dealltwriaeth o'r effaith a gafodd eu troseddu ar bobl eraill.

**Astudiaeth achos 3**

Roedd unigolyn ifanc a atgyfeiriwyd at Dîm Cyfiawnder Adferol TTI wedi ymosod ar gyd-ddisgybl ar y ffordd adref o'r ysgol. Cafodd y dioddefwr anafiadau drwg. Digwyddodd yr ymosodiad gan fod y troseddwr wedi clywed bod y dioddefwr wedi dweud rhywbeth am ei gariad yn ystod gwers yn yr ysgol. Effeithiwyd ar y dioddefwr a'i fam gan y drosedd, a mam y troseddwr hefyd. Cytunodd bob parti i gymryd rhan mewn Cynhadledd Adferol.

Gwnaeth y TTI waith gyda'r troseddwr cyn y Gynhadledd, gan ganolbwyntio ar feithrin empathi'r cleient â'r dioddefwr, meddwl ôl-ddilynol a rheolaeth emosiynol. Dywedodd y troseddwr wrth y TTI fod y gwaith hwn wedi ei helpu i ddeall safbwynt y dioddefwr yn ogystal â'i helpu i gael ymdeimlad o'r modd y mae'n rhaid bod y dioddefwr wedi teimlo cyn, yn ystod ac ar ôl yr ymosodiad. Yn ystod y Gynhadledd, fe wnaeth y troseddwr sicrhau'r dioddefwr na fyddai hyn yn digwydd eto a'i fod yn cydnabod fod ei ymddygiad yn annerbyniol. Dywedodd wrth y dioddefwr ei fod yn teimlo'n "wael" fod y dioddefwr yn ofnus ohono.

Yn dilyn y Gynhadledd, dywedodd y troseddwr wrth y TTI fod cyfarfod â'r dioddefwr wyneb-yn-wyneb wedi'i alluogi i weld sut yr oedd yr hyn a ddigwyddodd wedi effeithio ar y dioddefwr, ac nid oedd eisiau iddo deimlo felly. Dywedodd mai cyfarfod â'r dioddefwr wyneb-yn-wyneb oedd y rhan anoddaf o'r hyn a ddigwyddodd, ond y rhan fwyaf cadarnhaol hefyd.

Dywedodd y dioddefwr wrth y TTI fod y Gynhadledd Adferol wedi'i alluogi i ddelio â'r holl emosiynau yr oedd wedi'u teimlo ar ôl beth ddigwyddodd. Rhoddodd y cyfle iddo symud ymlaen. Rhoddodd yr hyder iddo hefyd i gerdded yn ôl ac ymlaen i'r ysgol heb deimlo'n ofnus.

O ganlyniad i'r Gynhadledd Adferol, mae'r dioddefwr a'r troseddwr yn gyfeillgar â'i gilydd erbyn hyn. Gwelant ei gilydd yn rheolaidd o amgylch y dref ac maent yn dweud helo wrth ei gilydd. Mae'r broses wedi bod yn fuddiol i'r ddau barti ac wedi dangos sut wnaeth y broses Cyfiawnder Adferol ddod â'r ddau o'r bobl hyn at ei gilydd i wneud iawn am y niwed a wnaed ar y diwrnod arbennig hwnnw.

38 Nid yw TTIau ar hyd a lled Cymru wedi datblygu system glir eto i olrhain y cynnydd a wna pobl ifanc wrth ddatblygu’u medrau meddal. Nid yw’r systemau gwybodaeth reoli y mae gwasanaethau’n eu defnyddio yn galluogi asesu ac adrodd yn effeithiol ar gynnydd pobl ifanc wrth ddatblygu’r medrau meddalach hyn. Mae hyn yn ei gwneud hi’n anodd i TTIau ddadansoddi’r effaith a gaiff ymyriadau dros amser ar gyfer pob unigolyn, neu eu heffeithiolrwydd cyffredinol wrth wella medrau cymdeithasol pobl ifanc.

## Datblygu medrau llythrennedd a rhifedd pobl ifanc

39 Mae’r BCI yn nodi mai ymgysylltiad ag addysg, cyflogaeth a hyfforddiant yw un o’r ffactorau pwysicaf i leihau aildroseddu a bod cyrhaeddiad isel, yn enwedig mewn llythrennedd a rhifedd, yn ffactor pwysig i fynd i’r afael ag ef o ran galluogi pobl ifanc i gael cyfleoedd (Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, 2006). Ledled Cymru, fodd bynnag, nid oes strategaeth gyson gan TTIau i gynorthwyo pobl ifanc y mae angen datblygu’u medrau llythrennedd a rhifedd ymhellach.

40 I bobl ifanc o oed ysgol, mae TTIau yn defnyddio gwybodaeth asesu o ysgolion neu’r awdurdod lleol i lywio’u gwaith. Fodd bynnag, nid yw gwasanaethau bob amser yn gwybod p’un a yw gwybodaeth asesu yn gyfoes. Caiff data asesu ei nodi ar gofnodion pobl ifanc unigol, ond nid yw’r system a ddefnyddir ar gyfer hyn yn addas i ddadansoddi gwybodaeth ar lefel strategol. Mae gwasanaeth Blaenau Gwent a Chaerffili a gwasanaethau Casnewydd yn defnyddio asesiadau gwaelodlin i ddarparu data ar lefelau llythrennedd a rhifedd eu pobl ifanc. Nid oedd yr un o’r gwasanaethau eraill yn gallu darparu’r wybodaeth hon. Mae hyn yn ei gwneud hi’n anodd i reolwyr gwasanaethau nodi, dadansoddi ac adrodd ar gyfran y bobl ifanc y mae angen cymorth llythrennedd a rhifedd ychwanegol arnynt neu i sicrhau bod arbenigedd priodol gan staff i gynorthwyo pobl ifanc i ddatblygu’u medrau.

41 Fodd bynnag, ceir enghreifftiau da o wasanaethau yn nodi ac yn ymateb i anghenion llythrennedd a rhifedd unigol pobl ifanc. Aeth Blaenau Gwent a Chaerffili ati i gyfuno adnoddau gyda Chasnewydd a Chwm Taf i ddefnyddio gwasanaethau therapydd lleferydd ac iaith. Fel rhan o gyflwyno fframwaith asesu newydd Cwm Taf, darparodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro hyfforddiant i ymarferwyr TTI er mwyn helpu i wella eu gallu i adnabod anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, a darparodd offer asesu ac ymyrryd i ymarferwyr eu defnyddio.

42 Mae ychydig o TTIau, fel Sir Gaerfyrddin, yn galluogi pobl ifanc i ddefnyddio adnodd llythrennedd a rhifedd ar-lein. Fodd bynnag, nid yw’n glir eto beth fu effaith defnydd Sir Gaerfyrddin o hyn ar wella medrau pobl ifanc.

43 Nid oes gan yr un gwasanaeth ddull effeithiol o fesur pa mor dda y mae llythrennedd a rhifedd pobl ifanc yn gwella o ganlyniad i ymgysylltiad â gweithwyr neu ymyriadau TTI.

# Cynllunio strategol

## Gwella cyfleoedd dilyniant

44 Mae'r 'Review of the Youth Justice System in England and Wales' (Taylor, 2016) yn nodi, "gall gwneud yn siŵr bod plant mewn addysg amser llawn neu gyflogaeth fod yn un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o atal troseddu ymhlith ieuenctid" (Taylor, 2016, tud.38). Mae'n nodi bod addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant addas sy'n cael eu cefnogi'n dda yn rhoi strwythur, gwybodaeth, trefn ddyddiol ac ymdeimlad o bwrpas a hunanwerth i bobl ifanc, ac yn gwella eu dewisiadau i'r dyfodol.

45 Er bod yr holl wasanaethau'n cydnabod pwysigrwydd addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant fel ffordd o helpu pobl ifanc osgoi ymddygiad troseddol pellach, maent yn wynebu heriau cyffredin o ran lleoli pobl ifanc mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth addas.  Mae'r heriau hyn yn cynnwys:

- cyfleoedd addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant annigonol
- canfyddiadau darparwyr cyfleoedd ynglŷn â'r risg y gallai pobl ifanc ei chreu, ac o'u galluoedd eu hunain i reoli'r risgiau
- lleoliad cyfleoedd a chyfleusterau trafnidiaeth gwael

46 Mae'r heriau hyn yn effeithio'n arbennig ar y cyfleoedd i bobl ifanc sy'n hŷn nag oed ysgol statudol.  Yn Wrecsam, er enghraifft, roedd staff yn cael anawsterau yn lleoli pobl ifanc a oedd yn droseddwyr cyson iawn, neu y nodwyd eu bod yn risg niwed uchel i bobl eraill.  Yn aml, mae datgelu risgiau yn arwain at dynnu cynigion o leoliadau yn ôl.  Ym Mae'r Gorllewin, cafodd staff anhawster yn cael gafael ar ddarpariaeth hyfforddiant pwrpasol a oedd yn bodloni anghenion pobl ifanc.  Ym Mhowys, Bro Morgannwg a Chwm Taf, roedd gwasanaethau'n gweld lleoliad cyfleoedd a chyfleusterau trafnidiaeth gwael fel rhwystr i bobl ifanc rhag gallu cael cyfleoedd.

47 Mewn ychydig o ardaloedd, ceir gweithio da mewn partneriaeth i alluogi pobl ifanc i gael mynediad at gyfleoedd addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.  Er enghraifft, mae'r gweithiwr addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yng Nghaerdydd wedi datblygu cytundeb gyda Choleg Caerdydd a'r Fro y bydd pobl ifanc sydd ar fin eu rhyddhau o sefydliad troseddwyr ifanc lleol yn cael sicrwydd o gyfweliad pan gânt eu rhyddhau, ac mae protocolau clir gan y coleg i reoli hyn fel nad yw pobl ifanc yn cael eu heithrio rhag cael cyfleoedd.  Mae trefniadau tebyg gan TTI eraill, er mai partneriaethau mwy anffurfiol sydd ganddynt yn aml.  Yng Nghwm Taf, mae'r TTI wedi hyfforddi staff mewn darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol mewn arferion adferol, ac mae hyn wedi'u helpu i deimlo eu bod wedi'u paratoi'n well i ymateb i ymddygiadau'r bobl ifanc yn y TTI.

48 Fodd bynnag, nid oes cynllun strategol gan yr un TTI sy'n archwilio darpariaeth bresennol ac yn blaenoriaethu gwelliannau a fydd yn mynd i'r afael â her y cyfleoedd cyfyngedig sydd ar gael i'w cleientiaid.

## Gwella ansawdd

49 Yn aml, mae TTIau yn gweithio ar atebion unigoledig i gynorthwyo pobl ifanc ag anghenion cymhleth. I'r perwyl hwn, mae llawer o'r ffocws ar reoli ansawdd yn ymwneud â thrafod gyda phobl ifanc, eu rhieni neu ofalwyr, a gweithwyr achos er mwyn nodi pa mor effeithiol y mae pobl ifanc yn gwneud cynnydd. Gwneir llawer o'r arfarnu o ansawdd ymyriadau drwy astudiaethau achos. Mae hyn yn ddefnyddiol er mwyn tynnu sylw at gyflawniadau unigol, yn enwedig fel enghreifftiau pan fo pobl ifanc wedi goresgyn rhwystrau rhag dilyniant.

50 Mae'r holl wasanaethau'n cofnodi lefel ymgysylltiad pobl ifanc yn effeithiol, ynghyd â'r cyflawniadau a'r dyfarniadau y bydd pobl ifanc yn eu cyflawni tra'u bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Mae hyn yn eu helpu i gynorthwyo unigolion, ond nid yw'r wybodaeth yn cael ei defnyddio'n ehangach i fyfyrio ar arfer neu i ddathlu cyflawniadau.

51 Mae staff TTI yn ymgynghori â phobl ifanc yn aml, ac yn cofnodi'u canfyddiad o ddarpariaeth mewn ffeiliau achos. Fodd bynnag, nid oes dulliau cyson i alluogi i hyn gael ei ddadansoddi neu'i adrodd ar lefel strategol er mwyn llywio cynllunio gwella gwasanaethau.

52 Nid oes gan yr un TTI strategaeth effeithiol i arfarnu effaith ei ymyriadau ar y cynnydd a wna pobl ifanc, er mwyn galluogi rhannu arferion da yn effeithiol ar draws gwasanaethau eraill. Nid yw gwasanaethau ychwaith yn cynnal hunanasesiadau rheolaidd o ansawdd, effeithiolrwydd ac effaith eu gwasanaeth i lywio a blaenoriaethu gwella ansawdd a chynllunio strategol. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r bwrdd rheoli i gefnogi gwasanaethau i wella.

## Byrddau rheoli

53 Ym mhob ardal, mae byrddau rheoli yn monitro perfformiad y TTI yn rheolaidd yn erbyn y dangosyddion perfformiad allweddol a bennwyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Maent yn cynnig her briodol os yw gwasanaeth yn tanberfformio yn erbyn y dangosyddion hyn.

54 Fodd bynnag, mae ffocws byrddau rheoli ar y dangosyddion perfformiad allweddol hyn yn rhy gul yn aml i'w galluogi i gynnal goruchwyliaeth a her effeithiol o ran ansawdd y ddarpariaeth gwasanaeth. Nid yw eu gwaith yn canolbwyntio'n ddigon da ar ddwyn partneriaid i gyfrif am ansawdd eu gwaith neu ar gynllunio'n strategol i wella'r cyfleoedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth sydd ar gael i atal pobl ifanc rhag troseddu neu aildroseddu.

55 Mae cynrychiolaeth dda o'r partneriaid statudol allweddol ar bron pob un o'r byrddau rheoli. Mae pob un ohonynt yn cynnwys uwch reolwyr addysg awdurdod lleol. Mae llawer yn cynnwys cynrychiolwyr o wasanaethau tai awdurdod lleol. Ceir cynrychiolwyr o Gyrfa Cymru a gwasanaethau ieuenctid awdurdod lleol ar leiafrif ohonynt. Mae ychydig yn cynnwys cynrychiolwyr o fudiadau gwirfoddol lleol. Fodd bynnag, nid yw'r un o'r gwasanaethau yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sefydliadau addysg bellach neu ddarparwyr dysgu yn y gwaith, sy'n sefydliadau allweddol a all gynorthwyo gwasanaethau i ehangu ystod y cyfleoedd i wella datblygiad a dilyniant medrau pobl ifanc.

## Atodiad 1: Sail y dystiolaeth

Anfonodd Estyn holiaduron at bob tîm troseddau ieuenctid yng Nghymru, a defnyddiodd yr ymatebion cyflawn i gynnal cyfweliadau dilynol gyda rheolwyr bron yr holl wasanaethau.

Cynhaliodd Estyn gyfweliadau gyda staff neu reolwyr yn y gwasanaethau canlynol:

- Caerffili a Blaenau Gwent
- Caerdydd
- Sir Gaerfyrddin
- Ceredigion
- Conwy a Sir Ddinbych
- Cwm Taf
- Sir y Fflint
- Gwynedd ac Ynys Môn
- Casnewydd
- Powys
- Torfaen a Sir Fynwy
- Bro Morgannwg
- Bae’r Gorllewin
- Wrecsam

Ni chynhaliwyd cyfweliad dilynol gyda gwasanaeth troseddwyr ifanc Sir Benfro gan fod rheolwyr gwasanaethau ynghlwm ag arolygon eraill gan Estyn ar y pryd.

Hefyd, cyfeiriodd Estyn at adroddiadau arolygiadau diweddar dan arweiniad Gwasanaeth Prawf Ei Mawrhydi, y bu arolygwyr Estyn yn cyfranogi ynddynt.

Yn ogystal, ystyriodd Estyn ganfyddiadau’r ‘Review of the Youth Justice System in England and Wales’ (C Taylor, 2016).

# Geirfa

| | |
|---|---|
| **AB** | Addysg bellach |
| **Arfer adferol** | Mae arfer adferol yn ddull o ddatrys gwrthdaro ac atal niwed, sy'n galluogi'r rheini sydd wedi cael niwed i gyfleu effaith y niwed i'r rhai sy'n gyfrifol, ac i'r rheini sy'n gyfrifol i gydnabod yr effaith hon a chymryd camau i'w hunioni |
| **BCI** | Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn gorff cyhoeddus anadrannol sy'n gyfrifol am oruchwylio'r system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru a Lloegr, ac yn cael ei noddi gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. |
| **Darparwyr cyfleoedd** | Sefydliadau fel colegau, cyflogwyr neu ddarparwyr dysgu yn y gwaith sy'n cynnig cyfleoedd i bobl ifanc symud i mewn i gyflogaeth |
| **DYYG** | Dysgu yn y gwaith |
| **EOTAS** | Addysg heblaw yn yr ysgol |
| **Medrau meddal** | Term a ddefnyddir gan ddarparwyr a gwasanaethau i gyfeirio at fedrau cymdeithasol fel: hunanhyder; hunanbarch; neu wydnwch |
| **NEET** | Pobl ifanc sydd heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant |
| **TTI** | Tîm Troseddau Ieuenctid |

## Niferoedd – meintiau a chyfrannau

| | |
|---|---|
| bron bob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | o dan 40% |
| ychydig = | o dan 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

# Cyfeiriadau

Estyn (2016) *Addysg heblaw yn yr ysgol.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/addysg-heblaw-yn-yr-ysgol [Darllenwyd 13 Ebrill 2018]

Llywodraeth Cymru a’r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2014) *Plant a Phobl Ifanc yn Gyntaf: cyd-strategaeth Llywodraeth Cymru/y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i wella gwasanaethau i bobl ifanc o Gymru sy’n rhan o’r system cyfiawnder ieuenctid neu sydd mewn perygl o ddod yn rhan ohoni.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/commsafety/140710-youth-justice-strategyv2-cy.pdf [Darllenwyd 13 Ebrill 2018]

Prydain Fawr (1998) *Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998.* Pennod 37. Llundain: Y Llyfrfa.

Taylor, C. (2016) *Review of the Youth Justice System in England and Wales.* Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. [Ar-lein]. Ar gael o: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/577103/youth-justice-review-final-report.pdf [Darllenwyd 13 Ebrill 2018]

Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2006) *Barriers to engagement in education, training and employment.* Llundain: Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. [Ar-lein]. Ar gael o: http://dera.ioe.ac.uk/7999/1/Barriers%20to%20EDUCATION, EMPLOYMENT OR TRAINING%20report%20FINAL.pdf [Darllenwyd 13 Ebrill 2018]

Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2017) *The Youth Justice Board for England and Wales annual report and accounts 2016/17*. Llundain: Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. [Ar-lein] Ar gael o: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/630201/YJB_Annual_Report_and_Accounts_2016-17_Web.pdf [Darllenwyd 10 Ebrill 2018]

Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2018a) *YJB EDUCATION, EMPLOYMENT OR TRAINING Adroddiad i Lywodraeth Cymru, Chwefror 2018.* Heb ei gyhoeddi.

Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a’r Weinyddiaeth Gyfiawnder (2018b) *Youth Justice Statistics 2016 / 2017 England and Wales.* Llundain: Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid / Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. [Ar-lein] Ar gael o: https://www.gov.uk/government/statistics/youth-justice-annual-statistics-2016-to-2017 [Darllenwyd 10 Ebrill 2018]